

Annwyl Cyfarwyddwr

## Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion;
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Sir Gâr yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedwar egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff y cynnwys ei lywio gan ein gweithgarwch gwerthuso perfformiad yn ystod y flwyddyn. Roedd y gweithgarwch hwn yn cynnwys y canlynol:

- Ymgynghorodd arolygwyr AGC â staff a phobl a oedd yn profi problemau iechyd meddwl fel rhan o'n gwaith i gefnogi adolygiad AGIC o wasanaethau iechyd meddwl cymunedol. Cawsom ymatebion gan bobl sy'n byw mewn gwasanaethau rheoleiddiedig.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Caerfyrddin  
Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Heol Picton  
Caerfyrddin  
SA31 3BT  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
☎ 0872 437 7303  
✉ [CIWLocalAuthority@gov.wales](mailto:CIWLocalAuthority@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Carmarthen Office  
Welsh Government  
Government Buildings  
Picton Terrace  
Carmarthen  
SA31 3BT  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Ymwelodd AGC â gwasanaethau anabledau dysgu cymunedol Cam Cyntaf a Coleshill er mwyn ymgysylltu â staff a'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn.
- Hunanwerthusiad o'r Gwasanaethau i Oedolion a gyflwynwyd i AGC yn gynharach eleni.
- Grŵp ffocws gyda gofalwyr maeth Sir Gâr a gynhaliwyd fel rhan o adolygiad thematig AGC o blant â phrofiad o ofal a'r rheini sydd wedi gadael gofal.
- Grŵp ffocws gyda phlant â phrofiad o ofal a'r rheini sydd wedi gadael gofal a gynhaliwyd fel rhan o adolygiad thematig AGC o blant â phrofiad o ofal a'r rheini sydd wedi gadael gofal.
- Cyfarfod her y Gwasanaethau Plant.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol ar 8 Ebrill 2019.

### Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

- Lles

Mae gwybodaeth ddiweddaraf Cyngor Sir Gâr am berfformiad y gwasanaethau plant yn cynnwys rhai dangosyddion cadarnhaol, er enghraifft mae cyfradd y plant â phrofiad o ofal sy'n dychwelyd adref a nifer y plant â thri lleoliad neu fwy (8.3%) yn dangos gwelliant parhaus. Y nifer o blant sy'n derbyn gofal (fesul 10,000 o'r boblogaeth) yw'r isaf yng Nghymru. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi bod yn lleihau'n gyson ers 2013. Mae gan yr awdurdod lleol gyfran uchel o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal rhwng 11 a 15 oed (67%) a rhwng 16 a 17 oed (26%). Bydd angen canolbwyntio ar gynllunio trawsnewid a threfniadau comisiynu yn y maes hwn er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau i ateb y galw disgwylidig.

Mae Cyngor Sir Gâr wedi datblygu dogfen ganllaw ranbarthol ynghylch trothwy diogelu oedolion yn ddiweddar sy'n nodi sut y bydd yn hyrwyddo llesiant oedolion sydd mewn perygl. Mae'r ddogfen a ddefnyddir ar draws y pedair sir sy'n ffurfio'r ôl troed diogelu rhanbarthol yn darparu cyfle i roi arfer diogelu cyson ar waith.

Yn ystod ein gwaith i gefnogi adolygiad AGIC o wasanaethau iechyd meddwl cymunedol, gwnaethom ymgynghori â staff a defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn profi problemau iechyd meddwl. Cawsom ymatebion gan bobl sy'n byw mewn gwasanaethau rheoleiddiedig a ddywedodd fod cyfathrebu â gweithwyr cymdeithasol a nyrsys seiciatrig cymunedol yn dda a'u bod yn gwybod â phwy i gysylltu yn y tîm iechyd meddwl cymunedol pan oedd angen hyn. Nodwyd bod gweithwyr cymdeithasol yn ymatebol o ran adolygiadau neu mewn argyfyngau. Gwelsom fod pobl yn cael gwybodaeth am wasanaethau eirioli lleol.

- Pobl – llais a rheolaeth

Gwelsom fod Cyngor Sir Gâr yn ymrwymedig i ddatblygu dogfennaeth yn newis iaith y defnyddwyr a'i fod yn hyrwyddo'r defnydd o sgiliau Cymraeg ymhlith y gweithlu. Nododd hunanwerthusiad Cyngor Sir Gâr o'i wasanaethau oedolion fod 90% o'r staff sy'n cyflwyno'r gwasanaeth IAA yn siaradwyr Cymraeg, sy'n golygu y gall pobl sy'n cysylltu â'r tîm gael eu sicrhau y byddant yn cael gwasanaeth yn eu dewis iaith.

Nid oes gan yr awdurdod lleol ddarparwr eiriolaeth penodol ar gyfer pobl hŷn ac mae'n dibynnu ar ddarparwyr eiriolaeth fel Eiriol, Pobl yn Gyntaf neu sefydliadau trydydd sector eraill fel y Gymdeithas Alzheimer, i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth eraill. Mae angen datblygu'r maes hwn ac mae'r awdurdod lleol yn gweithio tuag at drefniadau a gomisiynir yn rhanbarthol.

Gwnaethom siarad â grŵp o ofalwyr maeth yn Sir Gâr. Roeddent yn gadarnhaol am y cymorth a gawsant gan yr awdurdod lleol. Er enghraifft, roedd cymorth y tu allan i oriau yn amserol a chefnogol ac roedd hyfforddiant ar gael yn hawdd ac o ansawdd da. Gwnaethant nodi eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o gynllunio lleoliadau a bod yr awdurdod lleol yn rhagweithiol iawn wrth geisio atal lleoliadau rhag chwalu. Roedd y grŵp o'r farn bod llesiant a llais y plentyn yn cael eu cynrychioli gan y swyddog adolygu annibynnol, y gweithiwr cymdeithasol a'r eiriolwr. Roeddent yn teimlo y gellid gwneud mwy i gefnogi'r rheini a oedd wedi gadael gofal ac i sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt pan oedd ei angen arnynt a bod ganddynt le diogel i fynd bob amser.

Gwnaethom siarad â grŵp o bobl ifanc â phrofiad o ofal a ddywedodd wrthym fod gweithiwr cymdeithasol y rhan fwyaf ohonynt wedi newid sawl tro ac wedyn, o ganlyniad o bosibl, gallai cyfathrebu â gweithwyr cymdeithasol beri problemau ac roeddent yn teimlo nad oedd pobl yn gwrando arnynt bob amser. Mae problem barhaus gweithwyr cymdeithasol sy'n newid yn bryder cenedlaethol ac fe'i nodwyd drwy adolygiad cenedlaethol AGC o blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Mae adroddiad blynyddol statudol y cyfarwyddwr wedi pwysleisio pa mor bwysig yw cadw gweithwyr cymdeithasol hyfforddedig a phrofiadol. Mae timau wedi parhau i gynnwys swyddi gwag yn rheolaidd ac, mewn rhai meysydd gwasanaeth, mae hyn wedi cael effaith ar gyflwyno gwasanaethau.

Un o'r blaenoriaethau strategol yn adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr oedd adolygu gwasanaethau anabledd a pharhau i wella darpariaeth cyfleoedd dydd i bobl ar draws y sir. Er mwyn gwerthuso cynnydd, gwnaethom ymweld â gwasanaethau anableddu dysgu cymunedol Cam Gyntaf a Coleshill. Gwelsom fod yr ethos yn y canolfannau yn canolbwyntio ar lais a rheolaeth y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a chynnig cyfleoedd iddynt ddysgu sgiliau, cymryd rhan mewn gweithgareddau, gwirfoddoli a chymdeithasu.

Bu pryderon ar draws awdurdodau lleol Cymru bod pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon oherwydd rhestrau aros mesurau diogelu amddifadu o ryddid. Mae ein gwaith o fonitro'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid wedi nodi bod Cyngor Sir Gâr yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad, sy'n lleihau, trwy broses brysbennu ac asesu risg. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Atal

Atal yw un o'r blaenoriaethau strategol a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Yn ôl Cyngor Sir Gâr, mae'n ymrwymedig i adolygu trefniadau ar draws y rhanbarth gan nodi arferion profedig ledled Cymru a'r DU a datblygu fframwaith atal rhanbarthol yn seiliedig ar safonau ansawdd a rennir.

Mae rhai meysydd a amlygwyd yn yr hunanwerthusiad o'r gwasanaethau oedolion a gyflwynwyd i ni yn gynharach eleni yn disgrifio elfennau pwysig o gymorth ataliol sy'n cynnwys Llesiant Delta Wellbeing (LDW) sef cwmni masnachu awdurdod lleol dan

berchenogaeth lwyr Cyngor Sir Gâr sydd bellach yn rheoli'r gwasanaeth Llinell Gofal. Mae LDW hefyd yn darparu'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth sy'n cynnwys staff gofal cymdeithasol, iechyd a diogelu'r awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnig y cyfle i ymateb yn brydlon ac yn effeithiol.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalwyr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

- Partneriaethau

Mae gan Gyngor Sir Gâr drefniadau strategol ar waith i oruchwylio ei weithio rhyngddisgyblaethol. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru yn goruchwylio gwaith Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru ac yn cynnwys cynrychiolwyr o'r asiantaethau partner statudol, y trydydd sector, y sector annibynnol a defnyddwyr a gofalwyr. Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu strwythur rheoli integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda lle mae pennaeth y gwasanaeth, rheolwyr ardaloedd (sy'n gyfrifol am y timau adnodau cymunedol), arweinydd y gwasanaeth ar gyfer therapi galwedigaethol, rheolwyr y rhaglen a moderneiddio a rheolwr y bartneriaeth a llywodraethu, i gyd mewn swyddi a ariennir ar y cyd. Mae hyn yn cynnig y cyfle i osod sylfaen gref am weithio ar y cyd ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y sir.

Mae'r awdurdod lleol wedi cynnal hyfforddiant llesiant a hyfforddiant ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant gyda'i staff a'i bartneriaid amlasiantaeth, megis ffisiotherapyddion, nyrsys ardal, y gwasanaeth iechyd meddwl plant a phobl ifanc ac aelodau etholedig.

Dylai'r pwyslais clir ar weithio rhyngddisgyblaethol ac mewn partneriaeth fod o fudd i bobl ag anghenion gofal a chymorth yn Sir Gâr. Rydym wedi cytuno i ystyried y maes hwn yn ein gweithgaredd â ffocws, yn arbennig cefnogi annibyniaeth pobl hŷn, sef llinell ymholi thematig AGC ar gyfer 2019-20.

#### Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20

Bydd ein rhaglen arolygu thematig wedi'i threfnu ar gyfer y gwasanaethau oedolion yn 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn ac ar gyfer yr arolygiad thematig o wasanaethau plant, bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â'r arolygiadau thematig a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Bydd AGC yn

cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i adolygu meysydd a nodwyd yn yr hunanwerthusiad a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2019 gan ganolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn. Caiff adroddiad cenedlaethol thematig ei gyhoeddi ar ôl i'r arolygiadau a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Tua diwedd 2019, byddwn yn treialu arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant. Caiff yr arolygiad ar y cyd ei arwain gan AGC ac mewn partneriaeth ag AGIC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gwelliannau i wasanaethau gofal cymdeithasol.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC yn 2019/2020 gan arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Bydd AGC yn cymryd camau dilynol i adolygu argymhellion a wnaed yn ystod adolygiad thematig ar y cyd AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol fel rhan o gyfarfodydd rhwng pennaeth y gwasanaeth ac awdurdodau lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Bydd ein gweithgaredd â ffocws gyda'r awdurdod lleol yn cynnwys ffocws ar ddefnyddio trothwyon diogelu (gan gyfeirio at y ddogfen drothwy) ac ymweliadau cynlluniedig â Thîm Gofal Plant Dinefwr (i oruchwylio cyfarfod 'pod') a Thîm Asesu Llanelli (i gynnwys trafodaeth am gyfarfodydd rhwydwaith).

Gall y blaenoriaethau hyn newid wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir



Sharon Eastlake  
**Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro**  
Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.  
SAC  
AGIC  
Estyn